YR ATODLEN

# RHAN 1

## Darpariaethau cyffredinol

### Deunyddiau crai a sefydliadau sy'n cyflenwi deunyddiau crai

**1.**—(1) Dim ond crwyn anifeiliaid buchol, yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), a ganiateir eu defnyddio fel deunyddiau crai ar gyfer cynhyrchu colagen y bwriedir i bobl ei fwyta yn y Deyrnas Unedig.

(2) Gwaherddir defnyddio crwyn a gyflwynwyd i brosesau barcio.

(3) Rhaid i'r deunyddiau crai ddod o anifeiliaid buchol a gigyddwyd mewn lladd-dy y gwelwyd bod eu carcasau yn ffit i'w bwyta gan bobl yn dilyn archwiliad ante mortem a post mortem.

(4) Rhaid i'r deunyddiau crai ddod o ladd-dai, canolfannau casglu neu danerdai.

(5) Awdurdodir canolfannau casglu a thanerdai sy'n cyflenwi deunyddiau crai o dan reoliad 6 o Reoliadau Colagen a Gelatin (Masnach o fewn y Gymuned) (Cymru) 2003(**1**).

### Cludo a storio deunyddiau crai

**2.**—(1) Rhaid cludo deunyddiau crai a arfaethir ar gyfer cynhyrchu colagen o dan amodau glendid gan ddefnyddio dull priodol o gludo.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3) rhaid cludo a storio deunyddiau crai yn oer neu wedi eu rhewi, oni phrosesir hwy o fewn 24 awr ar ôl eu hanfon.

(3) Caniateir cludo a storio crwyn a halltwyd, eu sychu a'u calchu a chrwyn a gafodd eu trin ag alcali neu asid ar dymheredd amgylchynol.

(4) Rhaid cadw'r ystafelloedd storio mewn cyflwr da a glân, fel na fyddant yn ffynhonnell halogi'r deunyddiau crai.

(5) Yn ystod y cludo ac ar adeg y traddodi i'r canolfannau casglu a'r sefydliadau sy'n cynhyrchu colagen, rhaid bod dogfen fasnachol gyda'r deunyddiau crai yn unol â'r model a nodir yn Rhan 2 o'r Atodlen hon.

### Sefydliadau sy'n cynhyrchu colagen

**3.**—(1) Rhaid i'r cynhyrchu ar colagen y bwriedir i bobl ei fwyta ddigwydd mewn sefydliad a awdurdodwyd o dan reoliad 5 o Reoliadau Colagen a Gelatin (Masnach o fewn y Gymuned) (Cymru) 2003.

(2) Rhaid rhoi ar waith yn y sefydliad system sy'n ei gwneud yn bosibl cysylltu pob swp cynhyrchu a anfonir gyda'r llwythi â'r deunyddiau crai cysylltiedig sy'n dod i mewn, yr amodau cynhyrchu ac amser y cynhyrchu.

### Gweithgynhyrchu colagen

**4.**—(1) Rhaid cynhyrchu colagen drwy broses a fydd yn sicrhau bod y deunydd crai yn mynd drwy driniaeth sy'n ymwneud â golchi, addasu pH gan ddefnyddio asid neu alcali a ddilynir gan rinsio unwaith neu fwy, hidlo ac allwthio.

(**1**) O.S. 2003/3229

(2) Ni fydd colagen a gynhyrchir yn unol ag is-baragraff (1) yn mynd drwy brosesau pellach heblaw proses sychu.

(3) Ni fydd colagen nas bwriadir i bobl ei fwyta yn cael ei gynhyrchu a'i storio yn yr un sefydliad â cholagen y bwriedir i bobl ei fwyta onid yw'r colagen nas bwriadir i bobl ei fwyta wedi cael ei gynhyrchu a'i storio o dan yr un amodau ag a nodir yn yr Atodlen hon.

(4) Gwaherddir defnyddio cyffeithyddion heblaw'r rhai a ganiateir o dan Gyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor 95/2/EC ar ychwanegion bwyd heblaw lliwiau a melysyddion(**2**) (fel y diwygir y Gyfarwyddeb honno ar y dyddiad y gwneir y Rheoliadau hyn).

### Cynhyrchion gorffenedig

**5.**—(1) Cymerir mesurau priodol, gan gynnwys profion, i sicrhau bod pob swp cynhyrchu colagen, yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), yn bodloni'r meini prawf microbiolegol a gweddilliol a nodir yn y Tabl yn Rhan 3 o'r Atodlen hon.

(2) Os yw natur cynnyrch gorffenedig o'r math fel ei fod yn golygu na fyddai'n briodol ei gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â'r terfynau lleithder a lludw a bennir yn Rhan 3 o'r Atodlen hon, ni fydd y terfynau hynny yn gymwys i'r cynnyrch hwnnw.

### Lapio, pacio, storio a chludo

**6.**—(1) Rhaid lapio, pacio, storio a chludo colagen y bwriedir i bobl ei fwyta o dan amodau hylendid boddhaol, ac yn benodol —

- (a) rhaid darparu ystafell ar gyfer storio deunydd, lapio a phacio;
- (b) rhaid i'r lapio a'r pacio ddigwydd mewn ystafell neu mewn lle a fwriadwyd i'r diben hwnnw yn unig.

(2) Rhaid i ddeunyddiau lapio a phacio sy'n cynnwys colagen —

- (a) dwyn marc adnabod sy'n rhoi'r manylion canlynol —
  - (i) yr enw "United Kingdom" neu'r llythrennau blaen "UK",
  - (ii) a ddilynir gan rif cofrestru'r sefydliad a'r llythrennau blaen "EC"; a
- (b) dwyn y geiriau "Collagen fit for human consumption in the United Kingdom"; a
- (c) dwyn y dyddiad paratoi a rhif y swp.

(3) Rhaid bod dogfen fasnachol gyda'r colagen yn ystod y cyfnod y cludir ef a rhaid iddi ddwyn —

- (a) y geiriau "Collagen fit for human consumption in the United Kingdom"; a
- (b) y dyddiad paratoi a rhif y swp.

(**2**) OJ Rhif L61, 18.3.95, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 2003/114/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L24, 29.1.2004, t.58).